Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 1183 (Cy. 194)

# CYMWYSTERAU PROFFESIYNOL, CYMRU

## Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Diwygio) (Estyn i'r Swistir a Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2024

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth o dan adran 3(1) o Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 (p. 20) i weithredu o ran Cymru ddarpariaethau yn ymwneud â'r Cytundeb rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Chydffederasiwn y Swistir ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol a wnaed yn Llundain ar 14 Mehefin 2023 ("Cytundeb y Swistir").

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio etc.) 2023 (O.S. 2023/1294 (Cy. 230)) ("Rheoliadau 2023"), a weithredodd Bennod 12 o'r cytundeb masnach rydd rhwng Gwlad yr Iâ, Tywysogaeth Liechtenstein a Theyrnas Norwy a Theyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a wnaed yn Llundain ar 8 Gorffennaf 2021.

Mae'r diwygiadau yn Rhan 2 yn estyn cymhwysiad Rheoliadau 2023 i Gydffederasiwn y Swistir ac yn diwygio Rheoliadau 2023 at ddiben gweithredu Cytundeb y Swistir mewn perthynas â'r proffesiynau rheoleiddiedig Cymreig, fel y'u diffinnir gan Reoliadau 2023, ac mewn cysylltiad â hynny. Mae Rhan 2 hefyd yn cynnwys darpariaethau i gywiro mân wallau yn Rheoliadau 2023.

Mae Rhan 3 yn cynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth sectorol mewn perthynas â phroffesiynau trin nwyon

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

wedi eu fflworineiddio at ddiben gweithredu Cytundeb y Swistir, ac mewn cysylltiad â hynny.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 1183 (Cy. 194)

# CYMWYSTERAU PROFFESIYNOL, CYMRU

## Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Diwygio) (Estyn i'r Swistir a Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *18 Tachwedd 2024* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *20 Tachwedd 2024* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ionawr 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 3(1) a 13(1) o Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol 2022(**1**) ("Deddf 2022"), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 14 o Ddeddf 2022, mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni nad yw'r Rheoliadau yn dileu gallu unrhyw reoleiddiwr Cymreig ar broffesiwn rheoleiddiedig Cymreig i atal unigolion sy'n anaddas i ymarfer y proffesiwn rhag gwneud hynny, ac na fydd y Rheoliadau yn cael effaith andwyol sylweddol ar unrhyw broffesiwn rheoleiddiedig Cymreig o ran gwybodaeth, sgiliau neu brofiad yr unigolion sy'n ei ymarfer.

Yn unol ag adran 15 o Ddeddf 2022, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r rheoleiddwyr Cymreig hynny ar broffesiynau rheoleiddiedig Cymreig y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn debygol y bydd y Rheoliadau

(**1**) 2022 p. 20.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

hyn yn effeithio arnynt neu ei bod fel arall yn briodol ymgynghori â hwy.

# RHAN 1

## Darpariaethau cyffredinol

**Enwi a dod i rym**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Diwygio) (Estyn i'r Swistir a Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2024 a deuant i rym ar 1 Ionawr 2025.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Cytundeb y Swistir" ("*the Swiss Agreement*") yw'r Cytundeb rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Chydffederasiwn y Swistir ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol a wnaed yn Llundain ar 14 Mehefin 2023(**1**);

ystyr "Rheoliadau 2023" ("*the 2023 Regulations*") yw Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio etc.) 2023(**2**).

# RHAN 2

## Diwygio Rheoliadau 2023

**Diwygio rheoliad 2 o Reoliadau 2023**

**3.**—(1) Mae rheoliad 2 (dehongli) o Reoliadau 2023 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle'r diffiniad o "cyfnod ymaddasu" rhodder—

"ystyr "cyfnod ymaddasu" ("*adaptation period*") yw—

(**1**) Cyhoeddwyd ar 20 Mehefin 2023, ISBN 978-1-5286-4245-3, C.P. 869, y mae copi electronig ohono ar gael ar https://www.gov.uk/government/publications/agreement-between-the-swiss-confederation-switzerland-and-the-uk-on-the-recognition-of-professional-qualifications. Gellir cael copi caled yn rhad ac am ddim ar gais drwy ffonio'r Adran Busnes a Masnach ar 020 4551 0011 neu gellir edrych arno yn rhad ac am ddim yn Hen Adeilad y Morlys, Admiralty Place, Llundain, SW1A 2DY.

(**2**) O.S. 2023/1294 (Cy. 230); diwygiwyd gan O.S. 2024/613 (Cy. 87) erthygl 14(a) a 14(b).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) yn achos ceisydd sy'n gwneud cais(1) gan ddibynnu ar ddal cymwysterau proffesiynol(2) a gafwyd yn y Swistir, gyfnod o ymarfer o dan oruchwyliaeth, yn ddarostyngedig i asesiad ac y gall addysg bellach neu hyfforddiant pellach ddod gydag ef, mewn proffesiwn rheoleiddiedig Cymreig(3) o dan gyfrifoldeb aelod cymwysedig o'r proffesiwn hwnnw;

(b) yn achos ceisydd sy'n gwneud cais gan ddibynnu ar ddal cymwysterau proffesiynol a gafwyd ac eithrio yn y Swistir, gyfnod o ymarfer o dan oruchwyliaeth, yn ddarostyngedig i asesiad ac y gall hyfforddiant pellach ddod gydag ef, mewn proffesiwn rheoleiddiedig Cymreig o dan gyfrifoldeb aelod cymwysedig o'r proffesiwn hwnnw;".

(3) Hepgorer ""ystyr "penodedig" ("*specified*") yw wedi ei bennu mewn rheoliadau;".

**Diwygio rheoliad 8 o Reoliadau 2023**

**4.** Ym mharagraff (6) o reoliad 8 (y weithdrefn sydd i'w dilyn wrth wneud cais am gydnabyddiaeth) o Reoliadau 2023, yn lle "y Deyrnas Unedig" rhodder "Cymru a Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon".

**Diwygio rheoliad 11 o Reoliadau 2023**

**5.** Yn lle rheoliad 11 (ffioedd) o Reoliadau 2023 rhodder—

"**Ffioedd**

**11.**—(1) Caiff rheoleiddiwr Cymreig(4) godi'r ffioedd hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol mewn cysylltiad â chais.

(2) Rhaid i unrhyw ffioedd a godir gan reoleiddiwr Cymreig mewn cysylltiad â chais—

(a) bod yn rhesymol ac yn gymesur â chost y cais, a

(b) bod yn dryloyw ac wedi eu cyhoeddi ymlaen llaw.

(3) Yn achos ceisydd sy'n gwneud cais gan ddibynnu ar gymwysterau proffesiynol a

(1) Mae "cais" a "ceisydd" wedi eu diffinio yn rheoliad 2 o Reoliadau 2023.
(2) Mae "cymwysterau proffesiynol" wedi ei ddiffinio yn rheoliad 2 o Reoliadau 2023.
(3) Mae "proffesiwn rheoleiddiedig Cymreig" wedi ei ddiffinio yn rheoliad 2 o Reoliadau 2023.
(4) Mae "rheoleiddiwr Cymreig" wedi ei ddiffinio yn rheoliad 2 o Reoliadau 2023.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

gafwyd yn y Swistir, rhaid i unrhyw ffioedd fod yn daladwy drwy ddulliau electronig.

(4) Yn achos ceisydd sy'n gwneud cais gan ddibynnu ar gymwysterau proffesiynol a gafwyd yn rhywle ac eithrio yn y Swistir, rhaid i unrhyw ffioedd fod yn daladwy drwy ddulliau electronig drwy wefan y rheoleiddiwr Cymreig. ”

**Diwygio Atodlen 2 i Reoliadau 2023**

**6.** Ar ôl paragraff 3 o Atodlen 2 (y gwladwriaethau penodedig) i Reoliadau 2023, mewnosoder—

“**4.** Cydffederasiwn y Swistir”

## RHAN 3

## Diwygiadau i ddeddfwriaeth mewn perthynas â phroffesiynau trin nwyon wedi eu fflworineiddio at ddiben gweithredu Cytundeb y Swistir, ac mewn cysylltiad â hynny

**Diwygio Rheoliad (EU) Rhif 517/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 16 Ebrill 2014 ar nwyon tŷ gwydr wedi eu fflworineiddio, ac sy'n diddymu Rheoliad (EC) Rhif 842/2006**

**7.** Yn Erthygl 10 (hyfforddiant ac ardystio) o Reoliad (EU) Rhif 517/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 16 Ebrill 2014 ar nwyon tŷ gwydr wedi eu fflworineiddio, ac sy'n diddymu Rheoliad (EC) Rhif 842/2006(**1**)—

(a) ym mharagraff 10, yn lle “an EEA EFTA state” rhodder “a specified state”;

(b) yn lle paragraff 16 rhodder—

“**16.** For the purposes of this Article, a ‘specified state’ means a state specified in Schedule 2 to the Recognition of Professional Qualifications and Implementation of International Recognition Agreements (Wales) (Amendment etc.) Regulations 2023.”

**Diwygio Rheoliadau Sylweddau sy'n Teneuo'r Osôn 2015**

**8.**—(1) Mae Rheoliadau Sylweddau sy'n Teneuo'r Osôn 2015(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

---

(**1**) EUR 2014/517, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2019/583, O.S. 2020/1616, O.S. 2023/1286 ac O.S. 2023/1294 (Cy. 230).

(**2**) O.S. 2015/168, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2023/1294 (Cy. 230), O.S. 2019/583 ac O.S. 2023/1286.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Ailrifer rheoliad 4 (ystyr "competent") yn baragraff (1) o'r rheoliad hwnnw.

(3) Yn rheoliad 4(1) (fel y'i hailrifwyd gan baragraff (2))—

(a) yn is-baragraffau (a) ac (c)(ii), yn lle "an EEA EFTA state" rhodder "a specified state";

(b) hepgorer is-baragraff (d);

(c) mewnosoder paragraff newydd (2)—

"(2) For the purposes of this regulation, a "specified state" means a state specified in Schedule 2 to the Recognition of Professional Qualifications and Implementation of International Recognition Agreements (Wales) (Amendment etc.) Regulations 2023."

(4) Yn rheoliad 6 (cymwysterau a goruchwyliaeth)—

(a) ym mharagraff (5)(b)(i), yn lle "4(a)" rhodder "4(1)(a)";

(b) ym mharagraff (6)(a)(i), yn lle "4(c)" rhodder "4(1)(c)".

(5) Yn y nodyn cwr tudalen i Atodlen 2, yn lle "4(a)" rhodder "4(1)(a)".

(6) Yn y nodyn cwr tudalen i Atodlen 3, yn lle "4(c)" rhodder "4(1)(c)".

*Jack Sargeant*
Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, un o Weinidogion Cymru
18 Tachwedd 2024